

Gobaith, llewyrch a gras

Wrth i'r Ysgrifennydd Cyffredinol ymgymryd â swyddogaeth newydd ei alwad cawn gyfle i dderbyn anogaeth a her ganddo ar gyfer y flwyddyn newydd ac i dymor newydd yn ei hanes yntau.



Yn gyntaf, hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd dda i holl ddarllenwyr y Goleuad, ac i ddiolch ichwi am eich gwaith, eich gwasanaeth, ac uwchlaw popeth, eich dyfalbarhad yn ystod y flwyddyn a'r blynyddoedd a aeth heibio.

Fel y nodais mewn llythyr at yr eglwysi ddiwedd y flwyddyn, yr wyf bellach yn dechrau cyfarwyddo gyda'r newidiadau i rôl yr Ysgrifennydd Cyffredinol, ac yn edrych ymlaen at y cyfle ddylai hyn ei gynnig i fod yn fwy rhagweithiol yn gweithio gyda'r eglwysi a'r Llysoedd i geisio parhau i addasu wrth ymateb i'n cyd-destun yn y Gymru gyfoes.

Yn sicr, beth bynnag arall sy'n wir am y ffordd yr wyf fi, fel chwithau, yn edrych ymlaen at y flwyddyn newydd, yr ydym yn gwneud hynny fel y Salmydd – 'Ond yr ydym ni'n bendithio'r ARGWLWYDD yn awr a hyd byth. Molwch yr ARGWLWYDD.' (Salm 115:18)

Yn ystod yr wythnosau diwethaf yr wyf wedi bod yn teithio drwy ail lyfr y Cronicl, ac er bod hynny yn medru bod yn her, yn arbennig wrth ddarllen rhestrau hir o enwau unigolion sy'n anodd eu hynganu, eto yng nghanol y cwbl, mae yna wirioneddau sy'n codi calon yn anghyffredin. Efallai fod rhai ohonoch yn gwybod yn dda bod llawer o'r llyfr yn groncl o hanes brenhinoedd ag arweinwyr yn Israel a Jwda sy'n mynd eu ffordd eu hunain, a hynny yn gadael llewyrch trist iawn ar yr Eglwys yn y cyfnod. Ond, yng nghanol y cwbl fe gewch ambell i frenin gwahanol, ac am dymor,

mae yna llewyrch eto ar y bobl, ac ar yr Eglwys neu'r Genedl. Fel hyn y mae'r llyfr yn disgrifio un ohonynt: '...gwnaeth yr hyn oedd dda, uniawn a ffyddlon gerbron yr ARGWLWYDD ei Dduw. Pa beth bynnag a wnâi i geisio ei Dduw yng ngwasanaeth tŷ Dduw, yn ôl gofynion y gyfraith a'r gorchmynion, fe'i gwnâi â'i holl galon, a llwyddo.' (2 Cr 31:20-21) Heseceia oedd y brenin yma, ac fel yn hanes ei or-wŷr Joseia yr ydym yn cael golwg ar yr hyn sy'n bosibl yn hanes yr Eglwys, hyd yn oed yng nghanol cenhedlaeth, yn wir, cenedlaethau o ddirywiad.

Mae gonestrwydd yn mynnu fy mod yn nodi na pharhaodd y llewyrch, ond mae'n amlwg fod yn wers werthfawr yn hyn. I ni, ein cyfrifoldeb yw, nid yn gymaint beth wnaeth y rhai a aeth o'n blaen, nac ychwaith beth fydd yn cael ei wneud gan y rhai a ddaw ar ein hôl, ond byw, gweithio, gwasanaethu a'n holl galon, gan ddisgwyl y bydd yr Arglwydd yn llwyddo ac adeiladu ei Eglwys yn ein cyd-destun ni.

Gyda'r hyder hwn, d'oes ryfedd ein bod fel pobl yr Arglwydd yn cael achosion, fel y Salmydd i fendithio a moli'r Arglwydd. Dewch i ninnau fod yn ffyddlon yn ein cenhedlaeth ni, a mawrhau'r Duw sy'n cyhoeddi heddiw yn 'ddydd o ras'.

Meirion Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol

I ble yr af oddi wrth dy ysbryd? I ble y ffoaf o'th bresenoldeb?

Holocost

Hil-laddiad yr arall.

Difodiant y 'nhw' nad ydynt yn perthyn.

Yr wythnos hon bydd pobl ar draws y byd yn meddwl am yr Holocost a'r cythreuldeb uffernol a dywalltwyd ar yr Iddewon, ar y Romani y methodig a'r 'gwahanol' yn Ewrop wâr. Ac mae'r dioddefaint wedi parhau. Gwahanol oedd yr amgylchiadau ym Mosnia, neu yn Rwanda, ymhlith ffoaduriaid a thtrueiniaid yn Syria neu'r Rohingya ym Myanmar. Ond yr un yw'r aflwydd, a'r un yw blas dagrau hallt, a choch yw staen pob gwaed.

Ffieiddio'r arall.

Difodiant yr 'ef' neu'r 'hi', y 'nhw' nad ydynt yn perthyn.

Yn yr Amerig yn ddiweddar hawliodd yr Arlywydd Trump sylw arweinwyr cenhedloedd byd oherwydd ei sylwadau

sarhaus a hiliol (yn ôl ei feirniaid) am drigolion nifer o wledydd tlawd y byd. Ffieiddio'r arall. Dihidrwydd am drueni pobl sy'n byw mewn amgylchiadau o dlodi caethiwus. 'Sdim ots, achos 'dyn nhw ddim yn perthyn i ni.

Dywedodd Elie Weisel, Rabi a ddiodeffodd greulondeb yr Holocost yn Auschwitz: 'Pan fydd geiriau'n methu daw trais yn iaith.'

Duw a faddeuo i'n byd am gamddefnyddio grym geiriau gan feithrin tafodieithoedd dihidrwydd a chreulondeb. Tybed pan dry iaith yn drais na foddur urddas geiriau a synnwyr pwyll?

'Ble mae Duw?'

Mor fyr yw'r cof.

Gwta fis yn ôl roedd y siopau'n llawn, y tinsel yn disgleirio a chapeli'n suo'u cân am faban glân, am faban mwyn, am drysor mewn crud, a chân angyllion. Ond

(parhad ar dudalen 2)



Cofeb ym Mhrâg i gofio am y rhai ddiodeffodd o dan llywodraethau totalitaraidd. Dangosir sut y mae trais dros amser yn difa'r ddynoliaeth yn ogytal a'r person.

I ble yr af oddi wrth dy ysbryd? (parhad)

rhywsut, hyd yn oed pan ganwn am 'Dawel nos' daw lluniau bomio Syria a thrais Afghanistan, darluniau o dlodi a chaethweision Libya i darfu ar ein hwiangerddi.

Hanfod ein newyddion da yw bod Duw wedi addo dod ei hun i ganol byd creulon Herod ac ymerodraethau'r ddaear. Camodd yn ddiwahoddiad ar adeg y Nadolig, o'r ymylon secwlaraid, i ganol realiti ein dioddefaint yn y byd.

Nid oedd modfedd o dinsel yn stabl Bethlehem. Ac nid hwiangerdd i'r rhai cysurus eu byd oedd cân yr angylion. Manifffesto gras ymyrraeth Duw ydoedd yn cael ei wireddu mewn Hanes. Pan fydd agweddau a llifeiriant acenion creulondeb yn bygwth pob synnwyr cofiwn mai gan y Gair yn unig mae'r grym tragwyddol fyw a chreadigol. A daeth y Gair yn gnawd.

Immanuel –

I fyd oedd yn gwingo, yn union fel ein byd ni, cyhoeddwyd bod chwyldro ar droed, bod Tywysog y byd hwn wedi'i farnu, a bod trefn newydd Teyrnas Nefoedd wedi ei sefydlu. Nid Duw pell mohono, ond Immanuel – Duw gyda ni.

Duw gyda ni mewn gras

A chafodd ei ddyfodiad, ei ffordd a'i ras effaith debyg i'r hyn y mae gwahoddiad i'w lwybrau yn ei gael heddiw. Aeth bugeiliaid i weld yr hyn a addawyd, teithiodd ddoethion i groesawu genedigaeth brenin yr angylion. Ffrwydrodd mawl a chân. Parhau i'w geisio mae'r distadl; parhau i chwilio amdano mae'r doethion; parhau i ffrwydro mae mawl ei bobl fel 'amen' i foliant nef.

Deiliaid y Deyrnas

A bydd y rhai sy'n ddeiliaid ei Deyrnas, sy'n disgwyl am gyflawniad ei Deyrnas ac sy'n gweithio am wireddiad y weddi a'r dyhead a osodwyd yn eu calonnau – *Deled dy Deyrnas, gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd* – yn sefyll allan. Arall fydd eu gwerthoedd a'u bywydau. Gweision Teyrnas Arall ydynt.

Her i'r Deyrnas

Ni châr y byd yr Arall ymwithgar. Fel yn nyddiau Herod rhaid oedd, rhaid yw difa trwy drais, trwy ofn, trwy fygythiad, trwy wenwyn siwgrwillyd addewidion am 'le wrth y bwrdd' dim ond i chi gyfaddawdu'ch ffydd gan beidio â bod yr Arall.

Goddefir 'crefydd' gennym cyn belled ei fod yn cadarnhau ein gwerthoedd a'n agenda ni. Yn wir, tra pery'n teyrnas ni, a thra erys yr Arglwydd yn Fod Mawr annelwig a phell gallem i gyd fod wedi cyd-fyw'n hapus ddigon. Pe byddai ond wedi aros yn Arall tragwyddol. Pe bai ond


wedi aros yn Dduw pell oedd wedi encilio i'w nefoedd ddiafordd ddieithr. Fe allem fod wedi byw gyda hynny. Gallem fod wedi ei feio, ei ddilorni ei farnu. Ac fe allai fod wedi aros yn fud.

Barnu'r byd

Ond mynnodd dorri ffiniau cwrteisi'n disgwyliadau secwlar. Mynnodd adael clydwch ei nefoedd, pell, a bod yn niwsans i'n teyrnas oedd personol. Mynnodd fod yn Immanuel yn Dduw gyda ni, yma. Mynnodd y Gair ddod yn gnawd yn llawn o ras a gwirionedd. Ac am i'r Arall, na allai'r byd ei oddef fynnu fod yn bresennol, rhaid oedd ei ddfa gan Herod neu Pilat neu unrhyw ymerawdwr arall na allai oddef ei ymyrraeth yn eu teyrnas.

Adnabod y llais

Pwy fedr oddef y Llais Arall dieithr, y Gair cwbl eirwir, sy'n creu ac yn cynnal bydysawd, y Gair hwnnw pan glywn ef yr ydym yn ei adnabod ar unwaith? Pan ddaw'r dieithr hwnnw yn adnabyddus fe sibrdw wrthym mewn geiriau eglur, ac wrth frenhinoedd ac arglwyddi'r byd, mae ymerawdwr noeth ydynt, ac mai gwellt yw eu hurddas ffug. Perthyn y Deyrnas i'r Arall, i'r Crist, i'r Immanuel.



Elie Weisel

By David Shankbone - Own work, CC BY 3.0, <https://commons.wikimedia.org/w/index.php?curid=19251042>

Lle roedd dynoliaeth?

Wrth feddwl am greulondeb hil-laddiad a Holocaust mewn hanes, wrth feddwl am ddifaterwch pobl gyfforddus ein byd ar yr un llaw a'r modd y caiff y gwannaf eu gwawdio a'i dilorni yn ein papurau newydd mwyaf poblogaidd daw cwestiwn Elie Weisel unwaith eto i'n sobri. Y cwestiwn mawr, meddai, yw nid lle oedd Duw yng nghanol creulondeb Auschwitz? Yn hytrach y cwestiwn arhosol yw 'i ble mae dyn a dyneiddiaeth wedi mynd?' pan fydd pobl yn cyflawni trais yn eu dirmyg, eu dihidrwydd eu creulondeb a'u twyll.

(RWJ)

Hyfforddiant

SESIYNAU ARWEINWYR (gweinidogion, blaenoriaid a gweithwyr)



Mae cyfres fer o sesiynau hyfforddiant ar y gweill y gwanwyn yma, i weld sut gall yr eglwys fanteisio ar fodolau gwaith o fyd busnes. Cafwyd y sesiwn gyntaf yn Nhrefeca ddechrau Ionawr, efo Arwel Ellis Jones yn ystyried sut i weithredu newid yn gadarnhaol o fewn yr eglwys. Dyma ymateb rhai a fynychodd:

- *cyflwyniad a chynnwys ardderchog; defnyddiol iawn.*
- *Da ein hatgoffa o be i ddisgwyl o newid*
- *roedd yn gret cael rhywun yn cyflwyno be mae arweinwyr busnes yn wneud, ond yn dweud yn glir nad dyma o anghenrhaid be ddylai'r eglwys ei wneud – tensiwn da.*
- *un o'r sesiynau gorau oedd Rheoli Newid – roedd yn wych sut daethpwyd â theori i mewn i'r eglwys, a sut i'w addasu ar gyfer ein sefyllfa.*
- *Fe gynigiodd fodolau da gellid eu cymhwyso i'n sefyllfa ni.*

Bydd y sesiwn nesaf yng Ngholeg y Bala, Dydd Mawrth, 6ed Chwefror eto efo Arwel Ellis Jones.

Yna Ebrill 12fed, yn Coleg Trefeca bydd cwrs undydd yn Saesneg efo un o hyfforddwyr CPAS, sy'n darparu hyfforddiant rheolaethol i'r eglwys Anglicanaidd.

Mae croeso i gyfeillion o enwadau eraill ymuno yn yr hyfforddiant. Rydym yn derbyn enwau ar gyfer yr holl gyrsgiau hyn yn awr.

SACRAMENTAU

Mae cyrsiau i flaenoriaid ar weinyddu'r Sacramenta o gymun a bedydd wedi cychwyn yn y Bala a Phontarddulais, a bydd cyrsiau Caernarfon ac Aberystwyth yn cychwyn yn fuan. Cysylltwch os am wybodaeth bellach.

delyth@ebcpcw.org.uk

Ymwelwch â gwefan
Eglwys Bresbyteraidd Cymru:
www.ebcpcw.cymru